Gweinyddiaeth Cyfiawnder

**Damian Hinds AS**
Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol Carchar Ei Fawrhydi Brynbuga a Charchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi Prescoed 47 Maryport Street
Brynbuga, Sir Fynwy
NP15 1XP

10 Tachwedd 2022

Annwyl Gadeirydd,

**CARCHARDAI EI FAWRHYDI BRYNBUGA a PHRESCOED: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 EBRILL 2021 - 31 MAWRTH 2022**

Diolch i chi am adroddiad eich Bwrdd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Rwy'n ddiolchgar i chi ac i'ch cydweithwyr am eich gwaith caled yn ystod cyfnod adrodd anodd arall. Rwy'n hynod ymwybodol o faint o ymdrech sy'n mynd i mewn i lunio adroddiadau blynyddol a diolch i chi am roi darlun cynhwysfawr o Garchardai Ei Fawrhydi Brynbuga a Phrescoed yn ystod y cyfnod adrodd.

Rwy'n gwerthfawrogi pryderon parhaus y Bwrdd ynghylch arian ar gyfer darpariaeth addysg yn y carchar. Caiff y gyllideb, bellach, ei rheoli gan Lywodraeth Cymru a gallaf gadarnhau ei bod wedi ei chlustnodi ar gyfer dysgu troseddwyr. Hoffwn sicrhau'r Bwrdd y bydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) yn parhau i gomisiynu darpariaeth briodol i gefnogi carcharorion mewn amgylchedd dysgu cynhwysfawr er mwyn cyflawni rhagolygon cyflogaeth. Bydd HMPPS yn gwneud bob ymdrech i sicrhau fod gan bob carcharor y cyfle i gael cyfleon hyfforddiant ac addysg addas sy'n gyson â'u diddordebau a'u huchelgais am gyflogaeth.

Gwnaed i ffwrdd â'r ddedfryd Carcharu er Gwarchod y Cyhoedd (IPP) yn hwyr yn 2012 gan y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO). Ni chymhwyswyd â'r diddymu hwn yn ôl-weithredol oherwydd, ar y pryd, roedd y Llywodraeth o'r farn na fyddai 'n iawn newid dedfrydau oedd wedi eu gosod yn gyfreithlon cyn y gwnaed i ffwrdd â nhw. Golyga hyn y bydd y Bwrdd Parôl yn caniatáu i'r rhai sydd â'r dedfrydau hyn gael eu rhyddhau unwaith y byddant wedi dangos na fyddant mwyach yn risg sylweddol i'r cyhoedd. Er mai gwarchod y cyhoedd yw ein prif flaenoriaeth, hoffwn eich sicrhau fod HMPPS yn parhau i fod wedi ymrwymo i wneud popeth y gall ei wneud i gefnogi cynnydd y rhai sydd â dedfryd IPP. Cyflawnir yr ymrwymiad hwn trwy gynllun gweithredu IPP pwrpasol a adnewyddir yn rheolaidd, sy'n cynnwys ystod eang o ffrydiau gwaith, megis adolygiadau achos a gyflawnir gan Wasanaethau Seicoleg i adnabod y llwybr mwyaf priodol i bob unigolyn a chyfundrefnau cynnydd arbenigol mewn amgylchedd o ryddid a chyfrifoldebau cynyddol mewn carchardai caeedig.

Wrth i nifer y carcharorion IPP sydd erioed wedi eu rhyddhau barhau i ostwng, tyfu mae cyfran y rhai hynny sy'n parhau yn y carchar a gyflawnodd droseddau mwy difrifol ac y mae eu hachosion yn gymhleth. Mae'r carcharorion hyn yn parhau i gael eu hasesu yn risg uchel o gyflawni troseddau treisiol neu rywiol pellach a bod ganddynt gyfres gymhleth o risgiau ac anghenion. Rhaid rhoi sylw i'r rhain cyn y gall y Bwrdd Parôl ystyried bod modd rheoli eu risg i'r cyhoedd yn ddiogel yn y gymuned dan oruchwyliaeth prawf. Bydd HMPPS yn parhau i weithio gyda'r unigolion hyn i gynnig iddynt gyfleoedd i ostwng eu risgiau a adnabuwyd.

**Ffôn** 020 3334 3555
**Ffacs** 0870 761 7753

**E** https://contact-moj.dsd.io/
www.gov.uk/moj

102 Petty France
London
SW1H 9AJ

Am y rhesymau hyn, mae rhai carcharorion â dedfryd IPP, sydd wedi treulio nifer sylweddol o flynyddoedd yn y ddalfa ar ôl iddynt gwblhau eu cyfnod. Yn sgil cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Dethol Cyfiawnder ar y ddedfryd IPP, mae'r argymhellion yn cael eu hystyried yn ofalus a bydd fy swyddogion hefyd yn adolygu'r Cynllun Gweithredu IPP yn wyneb hyn.

Cefais fy nhristáu o glywed am farwolaeth un o'r nyrsys iechyd meddwl ym Mai 2022 ac rwy'n cydymdeimlo â phawb yn y sefydliadau ac â'r galarwyr. Rwyf ar ddeall y llenwyd y swydd yn y tymor byr ym mis Medi ac mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i lenwi'r swydd yn barhaol.

Er ei fod yn gyfnod adrodd heriol arall, roedd yn galonogol derbyn eich sylwadau am waith arloesol rheoli'r pandemig wrth hefyd feithrin ysbryd cadarnhaol a bod carchardai Brynbuga a Phrescoed yn garchardai diogel lle ceir nifer isel o achosion o drais, bwlio a hunan anafu. Roedd y ffaith fod y sefydliadau'n llwyddo i gynnal nifer o leoliadau gwaith â thâl ac yn parhau i hwyluso gwaith adsefydlu yn ystod y cyfnod, er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19, wedi creu argraff arnaf.

Nodaf eich bod wedi codi rhai materion lleol o bryder yn eich adroddiad y bydd y Llywodraethwr yn parhau i roi gwybod i chi amdanynt wrth i'r gwaith barhau. Mae Sylwadau HMPPS mewn ymateb i faterion eraill a godir yn eich adroddiad i'w gweld yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Mae'r Ysgrifennydd Cyfiawnder a minnau'n gwerthfawrogi'r rôl gwerthfawr sydd gan aelodau o'r Byrddau Monitro Annibynnol ledled yr ystad ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich gwaith caled parhaus ar ran Carchardai Ei Fawrhydi Brynbuga a Phrescoed.

Yn gywir,

**Damian Hinds**
**Gweinidog dros y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf**

**Atodiad**

## CARCHARDAI EI MAWRHYDI BRYNBUGA A PHRESCOED: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 EBRILL 2021 - 31 MAWRTH 2022

### Sylwadau HMPPS ar faterion a godir yn yr adroddiad

**Swyddogion Prawf**
Y targed ar gyfer staff prawf i Garchar Ei Fawrhydi Brynbuga yw pedwar Swyddog Prawf ac un Uwch-swyddog Prawf. Ar hyn o bryd, mae dwy swydd wag yn y carchar. O gofio'r prinder cenedlaethol cyfredol o ran Swyddogion Prawf, awdurdodwyd y carchar i weithredu Model Cymorth i Reoli Achosion (CMSM). Golyga hyn y bydd Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar sy'n gweithio yn yr Uned Rheoli Troseddwyr yn cynorthwyo Swyddogion Prawf gyda thasgau penodol fel yr eglurir yn fframwaith yr CMSM. Awdurdodwyd y carchar hefyd i recriwtio dau Swyddog y Gwasanaeth Prawf dros dro yng Ngharchar Ei Fawrhydi Brynbuga i gynnig cymorth hyd oni bydd modd llenwi'r swyddi'n barhaol.

Mae Carchar Ei Fawrhydi Prescoed yn llawn o ran staff gyda thri Swyddog Prawf ac un Uwch-swyddog Prawf. Mae'r Llywodraethwr yn ymgysylltu'n aml gyda'r timoedd prawf i geisio datrysiad i'r prinder staff ac mae'n ymwybodol o effaith y llwyth gwaith cynyddol ar weddill y staff.